

Mesur Effaith Cefnogi Pobl: Adolygiad Cwmpasu

Crynodeb o Ymchwil

Ymchwil Gymdeithasol

Rhif: 78/2013

Argymhellodd Adolygiad Aylward yn 2010 y dylid adolygu'r broses o fesur canlyniadau a monitro prosiectau Cefnogi Pobl. Cynlluniwyd yr astudiaeth gwmpasu hon i lywio cwmpas, methodoleg a chwestiynau ymchwil asesiad ar raddfa fawr o effeithiau Cefnogi Pobl ledled Cymru.

Gwnaed y gwaith ymchwil rhwng mis Ebrill a mis Medi 2012.

Dulliau

Edrychodd yr astudiaeth gwmpasu ar ddarpariaeth Cefnogi Pobl drwy gysylltu ag awdurdodau lleol ac arolygodd ddarparwyr gwasanaethau hefyd. Cafodd systemau monitro canlyniadau ac asesu effeithiau a ddatblygwyd yng Nghymru a'r tu allan iddi eu hadolygu hefyd.

Canfyddiadau allweddol

1. Pan gynhaliwyd yr ymarfer casglu data rhwng mis Ebrill a mis Medi 2012, canfu'r ymchwil fod anghysondebau o ran sut roedd prosiectau Cefnogi Pobl wedi'u diffinio, wedi'u dosbarthu ac wedi'u cofnodi gan wahanol awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau. Ymddangosai fod rhai problemau yn gysylltiedig â'r ffaith bod dwy ffrwd ariannu a thair set o drefniadau comisiynu gwasanaethau ar waith ar y pryd nad oeddent yn rhannu systemau cofnodi.
2. Roedd yn anodd casglu data diffiniol ar brosiectau Cefnogi Pobl. Canfuwyd nad oedd modd mapio prosiectau Cefnogi Pobl yn hollol fanwl. Roedd ffynonellau data ar wasanaethau weithiau yn anghyson ac roedd peth hyblygrwydd o fewn trefniadau comisiynu, megis defnyddio trefniadau comisiynu hyblyg. Fodd bynnag, llwyddwyd i greu darlun cyffredinol o natur a chwmpas prosiectau Cefnogi Pobl ar lefel awdurdod lleol ac yn genedlaethol.

3. Nodir isod bwyntiau allweddol o'r ymarfer casglu data (mae pob pwynt yn ymwneud â dyddiad y ciplun, sef 30^{ain} Ebrill 2012):
 - Roedd prosiectau Cefnogi Pobl yn canolbwyntio ar bobl hŷn yn bennaf (75% o unedau).
 - Ymddangosai fod llawer o'r unedau mewn gwasanaethau Cefnogi Pobl i bobl hŷn yn wasanaethau â dwysedd cymharol isel, megis cynlluniau larwm cymunedol.
 - Ymhlith y gwasanaethau mwyaf cyffredin a ddarperid ar gyfer grwpiau cleientiaid eraill roedd gwasanaethau i bobl ag anawsterau dysgu (9% o unedau), pobl ddigartref (4%) a phobl â phroblemau iechyd meddwl (4%).
 - Roedd defnydd eithaf helaeth yn cael ei wneud o drefniadau comisiynu hyblyg ac roedd gan rai awdurdodau drefniadau a oedd yn golygu bod ganddynt nifer hyblyg o unedau Cefnogi Pobl.
 - Roedd bron un o bob 10 uned a oedd yn cael eu hariannu gan Cefnogi Pobl yn unedau 'cyffredinol', y bwriedid iddynt gefnogi amrywiaeth eang o grwpiau cleientiaid.
- Roedd defnydd helaeth yn cael ei wneud o gymorth fel y bo'r angen ar gyfer rhai grwpiau. Er enghraifft, roedd 69% o'r unedau ar gyfer pobl ddigartref yn gymorth fel y bo'r angen a ddarperid i bobl a oedd yn byw yn y gymuned, yn hytrach nag unedau mynediad uniongyrchol, unedau hostela neu unedau tai â chymorth. Mewn cyferbyniad, roedd 90% o'r unedau ar gyfer pobl hŷn yn dai â larwm cymunedol neu'n dai gwarchod.
4. Ymddangosai nad oedd dosbarthiadau presennol o fathau o brosiectau a grwpiau cleientiaid Cefnogi Pobl yn llwyr adlewyrchu'r amrywiaeth o brosiectau a defnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl.
5. Byddai angen i waith samplu a ffocws prif werthusiad sicrhau bod y nifer gymharol fach o brosiectau nas cynlluniwyd i weithio gyda phobl hŷn yn unig wedi'u cynrychioli. At hynny, byddai angen sicrhau bod y nifer gymharol fach o bobl yr oedd eu 'prif anghenion' (grwpiau cleientiaid) yn cynnwys trais domestig, digartrefedd,

- anawsterau dysgu, anabledau corfforol a grwpiau amrywiol eraill wedi'u cynrychioli'n dda mewn gwerthusiad o ganlyniadau Cefnogi Pobl.
6. Efallai y bydd angen i'r gwaith samplu ar gyfer unrhyw brif werthusiad o brosiectau Cefnogi Pobl ystyried patrymau comisiynu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Er enghraifft, roedd gwasanaethau dwysedd is ar gyfer pobl hŷn yn eithaf cyffredin yn 2012. Pe bai'r patrwm hwn yn newid byddai angen addasu'r gwaith samplu ar gyfer prif werthusiad.
 7. Fel rhan o'r astudiaeth gwmpasu edrychwyd ar y mathau o ddata a gedwir gan ddarparwyr gwasanaethau ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd gwybodaeth am brosesau casglu data darparwyr gwasanaethau yn ddefnyddiol wrth ystyried i ba raddau y byddai prif werthusiad posibl o brosiectau Cefnogi Pobl yn gofyn am gasglu data newydd ac i ba raddau y gallai ddefnyddio data sydd eisoes yn cael ei gasglu gan ddarparwyr gwasanaethau.
 8. Roedd cryn dipyn o ddata yn cael ei gasglu gan ddarparwyr gwasanaethau, ond roedd y data hefyd yn anghyson yn yr ystyr eu bod yn defnyddio cymysgedd o systemau casglu data, yr oedd rhai ohonynt yn unigryw. Roedd data da ar ddemograffeg sylfaenol, ond roedd darparwyr gwasanaethau yn llai tebygol o gasglu data ar nodweddion eraill, megis crefydd a rhywioldeb.
 9. Roedd darparwyr gwasanaethau hefyd yn casglu cryn dipyn o ddata ar ganlyniadau ond nid oedd wedi'i safoni am ei fod yn adlewyrchu gwahanol anghenion gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau a gwahanol nodau darparwyr prosiectau Cefnogi Pobl. Roedd data ar gostau hefyd yn cael ei gasglu'n eang, ond unwaith eto roedd y dulliau a ddefnyddid yn amrywio.
 10. Byddai 'prif werthusiad' posibl o brosiectau Cefnogi Pobl ar lefel genedlaethol yn cael ei gynnal mewn cyd-destun lle byddai darparwyr gwasanaethau yn hen gyfarwydd â monitro canlyniadau, er bod eu gallu i

gasglu rhagor o ddata ar ganlyniadau yn gyfyngedig, a olygai na allai darparwyr gwasanaethau o reidrwydd ddarparu'r holl ddata ar effeithiau prosiectau Cefnogi Pobl y gallai fod ei angen.

11. Awgrymodd y canfyddiadau o ran canlyniadau a data effeithiau a gasglwyd gan ddarparwyr gwasanaethau fod y data a oedd yn cael ei gasglu ganddynt, pan gynhaliwyd yr astudiaeth, yn rhy amrywiol a phenodol ac weithiau hefyd yn rhy gyfyngedig fel na ellid ei ddefnyddio i asesu effaith prosiectau Cefnogi Pobl yn lleol ac yn genedlaethol. Byddai angen prosesau monitro a gwerthuso canlyniadau ac effeithiau ar wahân.

12. Roedd gwaith monitro canlyniadau hydredol yn cael ei wneud gan rai darparwyr gwasanaethau (olrhain defnyddwyr gwasanaethau dros amser er mwyn gweld a fyddai canlyniadau gwasanaethau cadarnhaol yn parhau i gael eu cyflawni). Fodd bynnag, roedd hyn yn gymharol anghyffredin ac nid oedd yn defnyddio un dull safonol.

13. Roedd y sylwadau a gafwyd gan ddarparwyr gwasanaethau wrth ymateb i geisiadau am ddata gan gomisiynwyr gwasanaethau yn gymysg. Yn gyffredinol, nododd 44% o ddarparwyr gwasanaethau fod cofnodi data yn 'waith llafurus' a nododd 23% ei bod yn 'anodd ei gysylltu â'n gwasanaethau'. Tueddai cymdeithasau tai i fynegi barn fwy negyddol ar ofynion cofnodi.

14. Adolygodd yr astudiaeth gwmpasu systemau monitro a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer prosiectau Cefnogi Pobl ac roedd hefyd yn cynnwys adolygiad o systemau monitro a ddefnyddir yn yr Alban a Lloegr. Er bod gwasanaethau cymorth tai wedi bodoli ers cryn amser, mae Cefnogi Pobl ei hun yn rhaglen gymharol ddiweddar ac yn un sydd bellach yn datblygu mewn ffyrdd gwahanol iawn yng ngwledydd gwahanol y DU. Nododd yr adolygiad o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i fonitro canlyniadau Cefnogi Pobl y gellid dadlau nad yw mesurau sy'n bodoli wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd. Roedd eglurder o ran diffinio gwasanaethau,

prosesau mesur canlyniadau clir a ddilyswyd, dibynadwyedd data a pha mor gywir yw systemau mesur canlyniadau presennol oll yn bryderon a leisiwyd ynghylch systemau monitro canlyniadau presennol.

15. Megis dechrau y mae'r gwaith o ddadansoddi canlyniadau prosiectau Cefnogi Pobl. Fodd bynnag, efallai fod gwersi i'w dysgu o faes Economeg Iechyd y gellir eu defnyddio i werthuso canlyniadau prosiectau Cefnogi Pobl yn y dyfodol.

16. Nid yw prosesau casglu data ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau a'u barn am wasanaethau, ar y cyfan, wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn ogystal â monitro canlyniadau, gellir defnyddio arolygon sampl ar raddfa fawr, gan gynnwys arolygon hydredol. Mae rhai heriau yn gysylltiedig â chael sampl gynrychioliadol am fod rhai grwpiau defnyddwyr o dan raglen Cefnogi Pobl, yn enwedig pobl hŷn, yn llawer mwy niferus nag eraill.

17. Byddai cyfuniad o well prosesau monitro canlyniadau a gwerthusiadau manwl o

wasanaethau yn gwella ein dealltwriaeth o ganlyniadau a buddiannau cost prosiectau Cefnogi Pobl. Dylai gwerthusiadau manwl o wasanaethau fod yn rhai arbrol neu led-arbrol, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt fod yn gywir, yn gymharol ac yn hydredol, a fydd yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau. Fodd bynnag, ar yr amod bod y gwerthusiadau hyn yn cynnwys modelau gwasanaeth a ddefnyddir yn eang (neu fodlau gwasanaethau newydd sy'n cael eu hystyried) fel arfer gellir eu defnyddio a gallant helpu i lywio gwaith cynllunio polisi a phenderfyniadau comisiynu. Gall gwell prosesau monitro canlyniadau roi darlun cyffredinol da o ganlyniadau gwasanaethau a chosteffeithiolrwydd prosiectau Cefnogi Pobl, ond unwaith eto mae goblygiadau o ran costau os bwriedir adolygu systemau monitro canlyniadau presennol.

18. Byddai arolwg sampl ystadegol hydredol ar raddfa fawr yn cynhyrchu data defnyddiol. Fodd bynnag, mae heriau yn

gysylltiedig â'r graddau y mae darpariaeth gwasanaethau bresennol yn canolbwyntio ar bobl hŷn a hefyd yn eithaf amrywiol ar yr un pryd o ran y modd y mae'n cefnogi gwahanol grwpiau cleientiaid a'r amrywiaeth o grwpiau gwahanol a gefnogir. Mae lle i gynnal dau arolwg, y naill yn canolbwyntio ar bobl hŷn a'r llall ar grwpiau eraill, ond byddai hyn yn ddud a byddai'r data ar unrhyw fath penodol o wasanaeth ac unrhyw grŵp cleientiaid penodol yn gyfyngedig, hyd yn oed pe bai'r sampl yn un fawr.

19. Nid argymhellir defnyddio dull arolygu sampl. Mae problemau yn gysylltiedig â chael sampl wirioneddol gynrychioliadol ac â disgrifio casgliad cymhleth o brosiectau ac amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl gan ddefnyddio'r data cymharol 'denau' y byddai arolwg sampl yn ei gynhyrchu. Mae gormod o risg y byddai arolwg sampl mawr ond yn rhoi trosolwg o brosiectau Cefnogi Pobl tra byddai'n ddud i'w gynnal.

20. Gellir defnyddio methodolegau gwerthuso cost is amgen i asesu effeithiau Cefnogi Pobl. Gallai gwaith hydredol ansoddol ar raddfa gymharol fawr, sy'n dilyn pobl gan ddefnyddio prosiectau Cefnogi Pobl ac yn ystyried y canlyniadau iddynt dros amser, yn cynhyrchu data defnyddiol a manwl a helpu i roi 'llais' i ddefnyddwyr prosiectau Cefnogi Pobl. At hynny, gellir defnyddio dulliau arsylwadol i werthuso gwasanaethau.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Sara James

Gwasanaethau Gwybodaeth a

Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8562

E-bost:

sara.james@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN: 978-1-4734-0486-1

(h) Hawlfraint y Goron 2013